

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 13, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Gethin Williams, Simon Evans, Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams, Elfed ap Gomer.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Geraint Rowlands yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 8.d.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 9, 2018

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 9, 2018

Eitem 4. Eitem 8.dd. Llythyr ateb (7/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae'r ffordd wedi cael ei ysgubo yn Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018.

5. Materion Ariannol

a. Bil (1/1/2018) am £50 oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2016 / 2017.

Amgáu mae llythyr ganddo yn rhoi gwybod ei fod yn ymddiswyddo fel Archwiliwr Mewnol. I benodi Archwiliwr Mewnol newydd mae llawlyfr y Clerc (Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) yn awgrymu pwy all fod yn addas, ond mae pob Cyngor yn rhydd i benodi unrhyw un fysa'n addas. Mae Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn barod i wneud peth o'r gwaith.

Penderfynwyd talu'r bil.

Anfonwyd llythyr (3/2/2018) i Un Llais Cymru yn gofyn am gopi o lythyr a manyldeb maent wedi eu paratoi i benodi Archwilydd Mewnol.

Derbyniwyd y wybodaeth gan Un Llais Cymru (6/2/2018).

Wedi gwneud ymholiadau gydag Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, derbyniwyd llythyr (8/2/2018) ganddynt yn rhoi gwybod maent yn fodlon i fod ein Harchwiliwr Mewnol. Y ffi maent am godi yn dibynnu ar swmp o waith bydd angen ei wneud. Os rydym am eu penodi, maent angen llythyr penodi/ymrwymiad.

Penderfynwyd penodi Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i fod ein Harchwiliwr Mewnol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CHWEFROR 13, 2018

b. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Calonnau Cymru, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, Theatr Bara Caws, Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Y Groes Goch Brydeinig, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 3-11 Awst 2018, Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018, Tîm Achub 'Y Dydd' (penderfynwyd rhoi £50 pryd fydd ei angen).

Mewn llythyr (16/12/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2017-18. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 £7.57, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn $£7.57 \times 378 = £2,861.46$.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a Môn - £100
Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 -£100
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50
Ysgol Feithrin Dolgellau - £100
Ambiwylans Awyr Cymru - £100
Neuadd Bentref Bontddu: - £450
Neuadd Bentref Llanelltyd - ~~£450~~
Cyfanswm: £1,400

Penderfynwyd rhoi £50 i Tîm Achub 'Y Dydd' pryd fydd ei angen.

c. Llythyr (22/1/2018) oddi wrth Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ad-daliad at lwybrau cyhoeddus yn 2018/19 yn £841.17, fel ag yr oedd yn 2017/18. Maent angen gwybod cyn Chwefror 16 os yr ydym yn dymuno parhau i fod yn rhan o'r trefniant.

Penderfynwyd rhoi gwybod ein dymuniad i barhau fod yn rhan o'r trefniant ad-daliad at lwybrau cyhoeddus.

ch. Llythyr (8/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2018 / 2019. Tâl Aelodaeth yw £86.

Penderfynwyd talu'r tal aelodaeth.

ch. Balans yn y banc ar 29 Ionawr, 2018: £8,141.62.

6. Mynwent Llanelltyd

- a. Derbyniwyd (24/01/2018) siec am £1,475.00 oddi wrth Glyn Rees & Son, at daliad claddedigaeth y diweddar Pamela Gauntlett. Taliad £700 (bedd dwbl) + £480 (hawl claddu) + 25% (tu allan finiau'r gymuned). Roedd y gwasanaeth ar 2/2/2018.
- b. Bil (5/2/2018) am £540 oddi wrth John A. Owen am agor bedd dwbl at gwasanaeth ar 2/2/2018.

Penderfynwyd talu'r bil.

- c. Llythyr (7/2/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau Memorandwm Cyd-ddealwriaeth ar yr ymrwymiad i roi terfyn ar ffiodd claddu ac amlosgiad ar gyfer plant. Ni fydd awdurdodau claddu Cymru yn codi unrhyw ffioedd mewn perthynas â chladdu neu amlosgi plentyn, a ddiffinnir at y dibenion hyn fel person dan 18 oed. Er mwyn cydnabod y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth ildio'r ffioedd, bydd Llywodraeth Cymru, tra bod y Memorandwm hwn mewn grym, yn rhyddhau £600,000 yn flynyddol i'w ddsbarthu ymysg prif gynghorau Cymru sydd wedi cytuno i gydymffurfio â'r cynllun.
- ch. Derbyniwyd siec (9/2/2018) am £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf am gosod beddfaen ar y diweddar Jean Hainge Edwards.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- a. Ceisiadau cynllunio:

NP5/65/348A. Cais ôl-weithredol i gadw lle troi / parcio i'w ddefnyddio mewn cysylltiad a trac presennol. Derlwyn, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

NP5/65/330A. Aildo i'w cynnwys codi uchder y to a gosod ffenestri to, gosod cladin pren ychwanegol ar waliau allanol ac am newid y decin pren gyda teras wedi ei balmantu. Hafod Fach, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

- b. Llythyr (24/1/2018) yn rhoi gwybod mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru at ddibenion Archwiliad annibynnol. Mae'r dogfennau ar gael ar <http://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/ldp-revision?name> neu yn llyfrgelloedd cyhoeddus

8. Gohebiaeth

- a. Llythyr (9/1/2018) oddi wrth Mrs C. Cottam, Cae Hir, Bontddu yn gofyn i ni lenwi biniau halen yn yr ardal. Rhoddwyd gwybod i'r Adran Priffyrdd.
- b. Llythyr (10/1/2018) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 3-11 Awst 2018. Maent angen cymorth ariannol.
- c. Llythyr (16/1/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae holiadur i'w lenwi i roi gwybodaeth i Banel sydd wedi ei sefydlu i adolygu sector cynghorau lleol.

Penderfynwyd cwblhau'r holiadur.

ch. Derbyniwyd cwyn (16/1/2018) bod slab o garreg wedi symud wrth hysbysfwrdd sydd ar bont Bontddu. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd ei roi yn ôl i'w le.

d. Llythyr (18/1/2018) oddi wrth Cadeirydd Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 yn rhoi gwybod mae Gwyl Genedlaethol Gwyl Cerdd Dant Cymru yn ymweld â Blaenau Ffestiniog a'r Fro yn Nhachwedd 2018. Maent angen cymorth ariannol.

dd. Llythyr (23/1/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyda phedwar copi o ddogfennau ymwneud a 'Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - Adroddiad Cynigion Drafft'. Os mae sylwadau ar y Drafft bydd y Comisiwn eu hangen cyn Ebrill 23, 2018.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Comisiwn mai Llanelltyd yw'r ffordd gywir i sillafu enw'r pentref ac nid Llanelltud fel mae'n cael ei ddangos ar dudalen 7 y ddogfen.

e. Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gynllun llesiant Gwynedd a Môn i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliant. Maent angen gwybod beth rydym ni yn meddwl o'r Cynllun Llesiant Drafft. Maent angen gwybod cyn Mawrth 30, 2018. Amgáu mae'r Drafft.

f. Rhoddwyd gwybod (24/1/2018) i Priffyrdd:

1. mae coeden wedi disgyn ar bont rhwng Ceseilgwm Mawr a Ceseilgwm Bach, Taicynhaef. Mae angen symud y goeden.
2. mae ffordd Cwm Mynach wedi cael ei sgubo ond tydi'r cwteri ddim wedi cael eu glanhau. Mae angen glanhau'r cwteri. Mae angen symud y dail ysgubwyd a'i adael mewn cilfach parcio.

ff. Llythyr (26/1/2018) oddi wrth Swyddog Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r Cyngor gydag arian, trwy Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, i sicrhau fod gan drigolion fynediad at dechnoleg newydd a'r we. Os mae canolfannau cymunedol yn awyddus cael y Technoleg Gwybodaeth mewn llefydd cyhoeddus mae'r Cyngor eisiau gwybod cyn Chwefror 9, 2018.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CHWFROR 13, 2018

g. Llythyr (1/2/2018) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. I sicrhau bod oedolion yn cael gwasanaethau lleol mae pum Tîm Adnoddau Cymunedol wedi cael eu sefydlu ar draws y sir er budd y bobl. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys nyrsys, therapyddion, galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegyddion. Amgáu mae poster gyda gwybodaeth am y timau'r ardal, a'r manylion cyswllt perthnasol.

Penderfynwyd rhoi posteri ar hysbysfyrdau.

h. Llythyr (31/1/2018) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am:

Newid colofnau golau stryd ar yr A496 yn Bontddu.

Atgyweirio wyneb a rheoli tyfiant ar y llwybr Golff i'r Bont.

i. Llythyr (2/2/2018) oddi wrth Janet Edwards yn dweud bod llawr rhan merched o'r toiledau Bontddu yn nofio gyda dŵr. Roddwyd gwybod i Trebor Davies i archwilio'r broblem.

j. Llythyr (31/1/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Chwefror 20, 2018 am 7.00yh. Bydd cynrychiolydd o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn bresennol. Amgau mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod Tachwedd 28, 2017.

l. Llythyr (3/2/2018) oddi wrth Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog yn rhoi gwybod mae'n **orfodol** o Ebrill 2018 i dalu rhai lwfansau i aelodau. Mae Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau wedi bandio cynghorau cymuned a thref i bedwar 'band'. Mae wedi gofyn i Un Llais Cymru os oes hawl gan Aelodau i wrthod y lwfansau.

O ddarllen yr adroddiad mae disgwyl i'r Cyngor dalu'r lwfansau gan fod angen i aelodau sylweddoli nad gwirfoddolwyr yw aelodau. Gweler para 13.6 "Mae'r Panel o'r farn nad yw Cynghorwyr Tref a Chymuned yn wirfoddolwyr gan eu bod, yn dilyn y broses ddemocrataidd, wedi derbyn cyfrifoldebau ffurfiol a'u bod i gyd yn wynebu rhywfaint o atebolrwydd, mewn perthynas â swyddogaethau gan y Cyngor y maent yn eu rhedeg".

m. Galwad ffôn (8/2/2018) oddi wrth Sue Townsend, Taicynhaeaf yn rhoi gwybod bod Cyngor Gwynedd wedi rhoi bin halen newydd wrth Ceseilgwm Mawr ac wedi ei lenwi gyda halen. Diolchodd y Cyngor am wneud y trefniadau. Cadarnhawyd hyn mewn llythyr (9/2/2018) oddi wrth y Priffyrdd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Anfonodd Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth lythyr (19/1/2018) i Peiriannydd Ardal Meirionnydd (mae'r llythyr yn berthnasol i ni). Mae'r llythyr yn rhoi gwybod nid yw biniau halen wedi cael eu llenwi na rhoi bin newydd yn Taicynhaeaf er i Priffyrdd dweud maent wedi gwneud y gwaith. Gofynnwyd beth yw'r drefn i ail lenwi biniau, ac oes sustem sydd yn adrodd yn ôl fod y biniau wedi'i llenwi. Oherwydd bod y drefn ddim yn gweithio awgrymwyd ni ddylid codi tâl ar y Cyngor Cymuned i ail lenwi'r biniau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CHWEFROR 13, 2018

Llythyr ateb (25/1/2018) yn rhoi gwybod mae ein cais i lenwi'r biniau wedi ei anfon ymlaen at yr Uned Waith. Mae wedi gofyn i'r Uned am dystiolaeth eu bod wedi llenwi'r biniau er mwyn cadarnhau gyda ni. Mae ceisiadau i lenwi biniau eu hanfon i:

PriffyrddMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

10. Materion Brys

Nid oedd materion brys.
